CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 23ain o Fedi 2024 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Rhys Parry, James Brunton, Meirion Roberts, Ken Griffiths, Sion Evans, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd y Cyng Rhys Parry.

   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Aled Rees a Cyng William Rees.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed Gorffennaf 2024 ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng Meirion Roberts.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r perth yn tyfu ar Tower Road, ac roedd hyn wedi ei ddatrys. Nodwyd ohebiaeth am waith ar lwybrau 53,39, a 24, a chau llwybr 15 dros dro. Nodwyd fod angen sylw i bont ar lwybr rhwng Gyllellog a'r Ynys ger Talgarth.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf. Awgrymwyd trefnu diwrnod gwaith yno ar Ddydd Sul 13eg o Hydref.
   Cadarnhawyd fod Cyng Ken Griffiths wedi torri gwair yr hen fynwent ddwy waith dros yr haf.
   **c) Carafan static Cwm Sylwi,** - diolchwyd i'r Cyng James Brunton am ymchwilio i gofrestriad tanc septig gan Cyfoeth Naturiol Cymru, a chadarnhau y sefyllfa.
   **d) Difibrillators** – adroddwyd am gyfarfod gyda Tomos Hughes, ar Nos Lun 8fed Gorffennaf am 5yh, pryd y gosodwyd y defibrillator. Cadarnhwyd fod Phil Pugh wedi bod yno yn cwbwlhau y cyswllt i drydan y toiledau ar gost o £237.60. (atgoffwyd pawb fod amcangyfrif Cyngor Gwynedd yn £500) Nodwyd fod angen I un Cynghorydd fod yn gyfrifol am y difibllator, a gofynnwyd a allai Cyng Aled Rees wneud hyn. Byddai'r Clerc yn cysylltu.
   e) **Hyfforddiant wedi ei drefnu ar y 24ain Medi ar y Cod Ymddygiad (modiwl 9).** Cadarnhwyd gan Cyng Rhys Parry a James Brunton y byddent yn gwneud y cwrs yma. Byddai y Clerc yn diweddaru y cynllun hyfforddiant sydd gan y Cyngor ar y wefan.

   **f) Cwch/fan Transit ar dir Adra** – roedd y cwch wedi ei symud oddiyno, a darllenwyd ymateb Mark Mortimer o Gyngor Gwynedd am y van Transit. Byddai rhaid cael rhif cofrestru cyn symud ymlaen.

5**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law.

6.**Materion Cyllid**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (23.09.24), sef Cyfri Cyfredol £19,119.14, Cyfri Cadw £2660.68. Cadarnhawyd ail ran y praesept i law, sef £9000.

b) **Cyfrifon y Cyngor 2023-24** - nid oedd unrhyw ymateb gan Archwilio Cymru hyd yma.

**c) Cytunwyd i dalu yr anfonebau canlynol;**

Ar gynnig Meirion Roberts a'i elio gan Cyng Ken Griffiths, anfonebau Cyngor Gwynedd am gost Toiledau Cyhoeddus (£4000) ac Archwiliad mewnol (£330)

Ar gynnig Cyng Ken Griffiths a'i eilio gan Sion Evans, anfonebau Archwilio Cymru – ffioedd archwilio 2019/20 (£200) a 2020/21 (£200) (Fodd bynnag, nodwyd bod angen gofyn cwestiynau paham yr oedi yn danfon y rhain allan)

Ar gynnig Cyng Sion Evans a'i eilio gan yng James Brunton, cytunwyd ar gydnabyddiaeth ail chwarter y Clerc (499.99) a taliad HMRC (£125)

Ar gynnig Cyng Sion Evans a'I eilio gan Cyng James Brunton, cytunwyd i dalu anfoneb Phil Pugh Electrical am gyfanswm o £237.60.

**7. Gohebiaeth**

a) Roedd llythyr i law gan Menter y Glan yn gofyn i'r Cyngor ystyried talu am ddau gamera CCTV fydde'n gallu darllen rhif cerbydau i ddiogelu'r pentref. Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Rhys Parry, James Brunton a Meirion Roberts, ( fel Cyfarwyddwyr Menter y Glan) a phenderfynwyd gadael hyn tan y cyfarfod nesaf.

b) Nodwyd gohebiaeth Un Llais Cymru am y Cod ymddygiad, a byddai'r Clerc yn ei ddanfon allan I bawb.

c) Nodwyd manylion **Cynhadledd Genedlaethol Un Llais Cymru yn Llanelwedd ar yr 16eg o Hydref –** i'w ddanfon I bawb.

**d)** Nodwyd gohebiaeth am yr angen I roi **manylion taliadau Cynghorwyr I Lywodraeth Cymru erbyn diwedd Medi (a nil returns) a oedd wedi ei wneud.**

e) Nodwyd digwyddiad ar y cyd rhwng **Un Llais Cymru a'r SLCC ar yr 20fed o Dachwedd.**

f) Nodwyd gohebiaeth Un Llais Cymru am **reol presenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd** – sef absenoldeb am fwy na 6 mis.

g) Nodwyd ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ynglyn a safleoedd pleidleisio. Addawodd y Clerc ei gylchredeg, ond nodwyd fod pleidleisio yn y Ganolfan yn Pennal yn bwysig I drigolion yr ardal, a byddai peidio gallu gwneud hyn yn debygol o arwain at lai yn pleidleisio, gan fod yn anodd I rai fynd I lefydd eraill. Hefyd roedd gwneud y gwasanaeth yn bwysig I'r Ganolfan.

8**.Unrhyw fater arall.**

a) Soniwyd am y gwaith ochr ffordd ger Rhif 1, Rhys Terrace, a darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd dyddiedig 3ydd Gorffennaf. Nodwyd fod angen mwy o bridd yn ol yno, a bollards yn y ddaear i rwystro parcio.

b) Roedd cwynion am faw cwn ar y Marian, ac angen posteri. Addawodd Cyng Meirion Roberts edrych i mewn i hyn.

c) Roedd yr arwydd 'Ysgol' wedi ei dynnu o'r polyn sydd ar y wal rhwng mynedfa y Glan a'r bont.

d) Roedd angen drych newydd wrth y fynedfa i'r briffordd wrth ddod o gyfeiriad Llyn Bwtri – ger yr ysgol. Roedd angen rhoi rhif symudol Cyng. Rhys Parry ir Adran Briffyrdd yng nghyswllt hyn.

e) Roedd angen bwrdd gwybodaeth newydd yn yr arhosfan bws ger y toiledau. Addawodd Cyng Meirion Roberts edrych i mewn i hyn.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Fercher 6ed Tachwedd, yn y Ganolfan, Pennal am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 8.40pm.